BookTrust Cymru
Ysgogi plant i ddarllen
Getting children reading

Pori Drwy Stori

# Adnoddau tymor yr hydref

# Gweithagreddau Fy Nghalendr Dyna Dywydd Pori Drwy Stori: Canllaw i Athrawon

## Yr adnodd

Mae **Fy Nghalendr Dyna Dywydd** eleni yn adnodd rhyngweithiol **AR-LEIN**, sydd ar gael i bob teulu yn eich dosbarth Derbyn fel rhan o raglen Pori Drwy Stori sy'n cael ei rhedeg gan **BookTrust Cymru**.




Gallwch argraffu adnoddau i'w hanfon adref neu eu rhannu fel adnoddau digidol.

## Manteision i deuluoedd

Gall gweithgareddau Fy Nghalendr Dyna Dywydd gael eu cyflwyno yn y dosbarth a'u defnyddio gartref. Gall annog rhieni a gofalwyr i ddefnyddio'r gweithgareddau i arsylwi a siarad am y tywydd, tymhorau, dyddiau a misoedd arwain at lawer o fanteision:

- Gall plant ddatblygu eu dealltwriaeth o amser a threfn pethau.
- Mae plant yn datblygu geirfa ac yn cofio am weithgareddau'r wythnos.
- Gall teuluoedd ailymweld â rhigymau o'r Her Rigymu e.e. *The Seasons* a *Dwi'n Hoffi*.
- Mae defnyddio'r calendr yn gallu rhoi mwy o hyder i rieni a gofalwyr, a rhoi syniadau newydd iddyn nhw am ffyrdd i gefnogi rhifedd gartref.

## Cyflwyno gweithgareddau Fy Nghalendr Dyna Dywydd

- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cyflwyno Fy Nghalendr Dyna Dywydd yn y dosbarth i greu cyffro cyn ichi anfon yr adnodd adre. **Fe allech chi drafod a chofnodi'r tywydd gyda'ch gilydd yn ystod amser cylch.**
- Rhowch wybod i'r teuluoedd fod yr adnodd yn rhan o raglen Pori Drwy Stori, y rhaglen dysgu cartref-ysgol y mae BookTrust Cymru'n ei rhedeg.
- Anogwch y teuluoedd i rannu rhigymau, caneuon a straeon am y tywydd. **Gallan nhw rannu'r straeon ar dudalen we Dyna Dywydd a defnyddio rhigymau o'r Her Rigymu Pori Drwy Stori, neu greu rhai eu hunain!**

## Gweithgareddau Fy Nghalendr Dyna Dywydd

- Atgoffwch y rhieni, y gofalwyr a'r plant i gwblhau gweithgareddau Fy Nghalendr Dyna Dywydd yn ystod gwyliau hanner tymor. **Fe allech chi ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, e-bost a thecstio i atgoffa pobl cyn ac ar ôl gwyliau hanner tymor.**
- Gwahoddwch y plant i ddangos eu gwaith i'r dosbarth neu mewn grwpiau bach. **Gallai hyn fod drwy daflenni wedi'u hargraffu neu drwy ddefnyddio llechen neu gyfrifiadur i rannu ffeiliau digidol.**
- Crëwch graff dosbarth i gofnodi ac arddangos y mathau o dywydd y mae'r plant wedi'u cofnodi yn eu calendrau Dyna Dywydd. **Fe allech chi ddefnyddio'r graff ar gyfer trafodaethau yn y dosbarth yn ymwneud â rhifedd.**
- Rhowch dystysgrif yn wobr i'r plant – mae i'w gweld ar dudalen we Dyna Dywydd. **Gallwch argraffu'r tystysgrifau neu eu llenwi a'u rhannu'n ddigidol.**

Darluniau gan Matt Joyce

I gael rhagor o syniadau, dilynwch ni ar Twitter
@BookTrustCymru
#poridrwystori

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

poridrwystori@booktrust.org.uk
booktrust.org.uk/cy-gb/myweatherwatch